



Uned 5D: Taenlenni

Ynglyn â'r Uned:

Yn yr uned hon mae plant yn dysgu sut i fwydo rhifau, labeli a fformiwlâu syml i daenlen a defnyddio'r data i gyfrifo cyfansymiau. Cyflwynir plant i feddalwedd taenlenni a byddant yn astudio sut mae newidiadau yn y pris a'r swm yn effeithio ar gyfanswm cost.

Bydd y plant yn cymhwyso'r hyn y maen nhw wedi dysgu yn yr uned hon wrth archwilio modelau mathemategol a gwyddonol.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar unedau blaenorol am drin gwybodaeth.

Mae'r uned yn cymryd yn ganiataol bod y plant yn gallu:

- cyfrif cyfanswm costau
- adnabod patrymau rhif
- defnyddio cyfeirnod i ddod o hyd i grid mewn sgwâr.

Geirfa:

Taenlen | cell | fformiwlâ | swm | cyfrifo | rhes | colofn |

Adnoddau:

Meddalwedd taenlenni | amrywiaeth o dderbynebau | taenlen barod |

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: defnyddio taenlen i gyflawni cyfrifiadau.

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: defnyddio taenlen i gynhyrchu tabl o ddata.

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: defnyddio taenlen i gyflawni cyfrifiadau; archwilio effaith newid y data mewn taenlen.



Amcanion Dysgu <i>Dylai disgyblion ddysgu...</i>	Gweithgareddau Posib	Canlyniadau Dysgu <i>Gall disgyblion...</i>	Pwyntiau i'w nodi
Gosod yr Olygfa			
<ul style="list-style-type: none">• syniad allweddol: bod cyfrifaduron yn gallu cyfrifo costau ac yn ddefnyddiol pan fydd prisiau'n newid	<ul style="list-style-type: none">• Trafodwch y syniad o weithio o fewn cyllideb; er enghraifft ar gyfer taith ysgol. Trafodwch y bydd angen cyfrif cyfanswm y gost unwaith eto os bydd prisiau neu symiau'n newid, fel cost y tocynnau neu nifer y bobl.	<ul style="list-style-type: none">• Ddeall efallai y bydd angen newid modelau costio	
Tasgau byr wedi'u Ffocysu			
<ul style="list-style-type: none">• techneg: bwydo labeli a rhifau i daenlen.	<ul style="list-style-type: none">• Dangoswch i'r dosbarth sut i symud o gwmpas taenlen a sut i fwydo rhifau a labeli testun i mewn. Gofynnwch i'r dosbarth nodi cynnwys celloedd penodol. Gofynnwch i'r plant weithio mewn parau i gynhyrchu tabl fel un sy'n dangos costau cynhwysion amrywiol sy'n gwneud pryd o fwyd.	<ul style="list-style-type: none">• Bwydo data i mewn i gelloedd.	<ul style="list-style-type: none">• Gellir rhoi taflen sy'n dangos cyfeirnodau celloedd er mwyn annog y plant sy'n cael y gwaith yn anodd
<ul style="list-style-type: none">• techneg: bwydo fformiwlâu i mewn i daenlen.	<ul style="list-style-type: none">• Dangoswch i'r plant sut i fwydo fformiwlâ i mewn i daenlen, fel '$=c2+c3$'. Gofynnwch i'r plant ddefnyddio fformiwlâu i adio cynnwys dwy gell. Gofynnwch i'r plant achwilio beth fydd yn digwydd os bydd data yn y ddwy gell yn newid. Gofynnwch iddynt arbrofi gyda thynnu, llusoi a rhannu a rhagfynegi sut bydd cynnwys y gell yn newid.	<ul style="list-style-type: none">• Bwydo data a fformiwlâu i mewn i gelloedd, addasu'r data, rhagfynegi'r newidiadau a gwirio'r canlyniadau.	<ul style="list-style-type: none">• Gallai plant mwy galluog roi cynnig ar fformiwlâu mwy anodd fel '$=3*c2+c3$'. Os nad ydynt yn gyfarwydd â defnyddio cromfachau efallai byddant yn cael eu synnu gan y canlyniadau.



<p>Amcanion Dysgu <i>Dylai disgyblion</i></p>	<p>Gweithgareddau Posib</p>	<p>Canlyniadau Dysgu <i>Gall disgyblion...</i></p>	<p>Pwyntiau i'w nodi</p>
<p>Tasgau byr wedi'u Ffocysu (Parhad)</p>			
<ul style="list-style-type: none"> • techneg: defnyddio 'SUM' i gyfrif cyfanswm set o rifau mewn nifer o gelloedd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Atgoffwch y dosbarth sut mae '=c1+c2+c3+c4+c5+c6' yn cynhyrchu cyfanswm. Trafodwch faint o waith teipio sydd ei angen. Cyflwynwch y defnydd o '=SUM(c1:c2)' fel modd cyflymach o gynhyrchu cyfansymiau. Gofynnwch i'r plant ddefnyddio 'SUM' i gyfrif cyfanswm cost pryd o fwyd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ddefnyddio 'SUM'. 	<ul style="list-style-type: none"> • Pwysleisiwch bwysigrwydd cromfachau. • Bydd rhai plant yn gallu adio colofnau'n haws na rhesi.
<p>Tasg Aseu</p>			
<ul style="list-style-type: none"> • Newid data mewn taenlen i ateb cwestiynau 'beth fyddai'n digwydd pe bai ...?' a gwirio rhagfynegiadau 	<ul style="list-style-type: none"> • Dywedwch wrth y dosbarth eu bod yn mynd i drefnu parti a byddant yn defnyddio taenlen i gyfrifo cost yr eitemau ar gyfer y parti. Esboniwch y rhoddir cyllideb iddynt a byddant yn penderfynu pa eitemau i'w prynu i sicrhau nad ydynt yn gwario gormod o arian. Esboniwch wrthynt y bydd angen iddynt gynnal arolwg i benderfynu ar ba eitemau i'w prynu. Esboniwch wrthynt y bydd angen iddynt ddarganfod y bwydydd a'r diodydd mwyaf poblogaidd. Wedyn bydd angen iddynt lunio graffiau i ddangos y canlyniadau a dadansoddi'r graffiau i benderfynu ar ba fwydydd a diodydd i'w prynu. • Atgoffwch y plant sut i greu taenlen syml ac esboniwch dermau fel 'cell,' 'cyfrifo' a 'fformiwlâ'. Wedyn gofynnwch iddynt ddefnyddio'r data oddi ar y derbynebaw. Gofynnwch iddynt fwydo fformiwlâ i mewn a defnyddio'r daenlen i wirio dewisiadau gwahanaol, fel prynu symiau a mathau gwahanol o ddiodydd tun. • Gofynnwch i'r plant weithio mewn paru i fwydo'r data i mewn i'r daenlen. Wedyn gofynnwch iddynt sicrhau bod cyfanswm yr arian sydd ei angen o fewn eu cyllideb, ac os nad yw e, trafodwch ba newidynnau y gellir eu newid. Dylent wirio'r daenlen i weld effaith y newidiadau. Gofynnwch i'r dosbarth gyflwyno eu canlyniadau a nodi unrhyw dewisiadau y maent wedi'u gwneud. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bwydo data a fformiwlâu i mewn i gelloedd, addasu'r data, rhagfynegi unrhyw newidiadau a gwirio'r canlyniadau. • Creu a defnyddio taenlen i gynhyrchu costau sydd o fewn cyrraedd y gyllideb. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gallai'r plant gasglu'r data fel gwaith cartref. • Dylai'r derbynebaw ddangos amrywiaeth o brisiau er mwyn i'r plant allu defnyddio'u taenlen i archwilio nifer o ddewisiadau.